

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **13 Tachwedd 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-11/18: Presennol**

Cadeirydd : Cyng. Elizabeth George

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Sian Williams

Clerc – Dr Catrin Jones.

Nodwyd gyda thristwch mawr farwolaeth y Cyng. Henry Jones a oedd wedi bod yn Gyngorydd ar y Cyngor Tref am gyfnod o 30 mlynedd a hefyd wedi bod yn Gyngorydd Sir. Hefyd Mr Robin Hughes, a oedd wedi bod yn Gyngorydd ar y Cyngor Tref am 20 mlynedd ac yn Clerc i'r Cyngor am 10 mlynedd. Safodd pawb am funud o dawelwch i gofio amdanant.

### **2-11/18 Ymddiheuriadau:**

Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Eirwyn Williams;

### **3-11/18: Datgan diddordeb**

Cyng. Wayne Roberts ar gyfer eitem C18/0991/35/LL - Cais diwygiedig i gais blaenorol a wrthodwyd i godi estyniad cefn deulawr - Garreg Lwyd, Wellington Terrace, Criccieth, LL52 0DB

Cyng. Wayne Roberts ar gyfer eitem C18/1007/35/TC - Cais am dystysgrif cyfreithloni ar gyfer defnyddio tir fel maes gwerysyla - Eisteddfa Caravan Park, Pentrefelin, Criccieth, LL52 OPT

Cyng. Phil Jones ar gyfer eitem C18/0965/35/LL Cais deiliad tŷ i ddychwel porth presennol a chodi estyniad deulawr ochr newydd - 1 Antipodes Terrace, Criccieth LL52 OBE

### **4-11/18 Cadarnhau cofnodion mis Hydref 2018**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

### **5-11/18 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)**

*Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau*

- a. Nodwyd bod y Clerc am rybuddio Cyngor Gwynedd am sedd wag ar y Cyngor er mwyn dilyn y broses angenrheidiol o'i llenwi.
- b. Nodwyd bod Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi derbyn argymhelliad y Cyngor i enwi'r datblygiad stad tai newydd yng Nghriccieth yn Rhos Isa.

### **6-11/18: Gohebiaeth**

- a. Canolfan Cymdeithasol Porthmadog – Llythyr 28 Medi 2018

Cais am wybodaeth gan Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymdeithasol Porthmadog am wybodaeth am brydles y Cyngor Tref a manylion am y berthynas gyda'r Neuadd Goffa.

**Penderfyniad:** Ymateb i esbonio mai ymddiriedolwyr perchnogol o'r Neuadd Goffa yn unig yw'r Cyngor Tref yn dal teitl yr adeilad ar ran y Neuadd Goffa sydd yn sefydliad anghorfforedig gyda statws elusennol ac felly ddim yn medru dal tir fel corff. Ymddiriedolwyr y pwyllgor rheoli sydd â chyfrifoldeb llwyr o lywodraethu a rheoli'r Neuadd Goffa ac mae'r Cyngor Tref yn cyfrannu'r wirfoddol i'r elusen bob blwyddyn.

- b. Cyngor Tref Porthmadog - Eisteddfod Genedlaethol Cymru -e-bost 13 Hydref 2018

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor Tref yn holi am farn o wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r ardal eto

**Penderfyniad:** Ymateb i nodi bod y Cyngor Tref yn gefnogol iawn i'r syniad – yn enwedig ar gyfer 2025.

- c. Cyngor Gwynedd - Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig - Ffordd Penpaled - e-bost 23 Hydref 2018

Roedd Cyngor Gwynedd yn holi am farn y Cyngor ar roi cyfyngiad parcio "dim aros ar unrhyw adeg" ger ffordd Penpaled.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad ac i atgoffa Cyngor Gwynedd am y newid statws i'r parcio ar gyfer yr ardal ger 'Blue China' gan nad oedd yr arwyddion wedi cael eu newid.

- d. Cynghorau Gwynedd a Môn -Ymgynghoriad cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol: Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd a Thai Marchnad Leol 9 Hydref 2018

Roedd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn holi am farn ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar:

- Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd
- Tai Marchnad Leol
- 

**Penderfyniad:** Dim sylwadau.

- e. Cyngor Gwynedd - Banciau Ailgylchu Papur/Cylchgronau - Llythyr 10 Hydref 2018

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn dweud y bydd y banc ailgylchu papur/cylchgronau ym maes parcio Criccieth yn cael ei symud a'r broses eisoes wedi cychwyn.

**Penderfyniad:** Mynegwyd pryder a siom yn y penderfyniad gan obeithio na fydd gweddill y gwasanaeth yn diflannu oherwydd pryder tipio sbwriel ac i dynnu sylw at gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd i wneud yn siŵr bod yr ardal yn lan a thaclus.

- f. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - adroddiad drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 - e-bost Hydref 2018

Roedd gwahoddiad i gynnig sylwadau ar adroddiad blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2019/20 – gwahodd sylwadau erbyn 27 Tachwedd – bydd ystyriaeth i'r ymatebion cyn cynhyrchu'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ym mis Chwefror 2019.

Roedd Tabl 9 yn crynhoi'r penderfyniadau - penderfyniadau 37 (taliad o £150 i bob Cynghorydd ) a 42 ( ad-dalu costau angenrheidiol gofal am blant ac oedolion) yn orfodol - y gweddill yn ddewisol - - byddai angen sicrhau bod yr Is-grŵp Cyllid Polisi a Rheolaethol yn cynnwys yr ystyriaethau yma wrth osod y gyllideb ddrafft ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor ym Mis Rhagfyr.

**Penderfyniad:** I nodi'r argymhellion drafft ac i ddanfon sylw at y Panel bod amseru cyhoeddi'r adroddiad terfynol yn dod lawer rhy hwyr gan fod angen gweithio ar y gyllideb a gwneud penderfyniad a chyflwyno cais am braesept 2019/20 i'r Cyngor Sir ym mis Ionawr 2019.

- g. Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru – adroddiad terfynol wedi ei gyflwyno – Hydref 2018

Nodwyd bod yr adroddiad a oedd a nifer o argymhellion pell gyrhaeddol, wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd manylion a linc i'r adroddiad wedi ei gylchredeg i'r Cyngor ar Newyddlen Un Llais Cymru mis Hydref. Bydd fyny i Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried yr adroddiad a sut mae bwrw 'mlaen gyda'r argymhellion.

**Penderfyniad:** derbyn y wybodaeth a nodi y bydd y mater yn cael ei drafod gan y Cyngor yn dilyn penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet.

- h. Cylch yr Iaith - Twristiaeth yng Ngwynedd - e-bost 30 Hydref 2018

Derbyniwyd e-bost gan Gydlynnydd Ymgyrch Dwristiaeth Cylch yr Iaith yn gofyn i'r Cyngor Tref fynegi cefnogaeth i'r pwyntiau isod i aelodau Cyngor Gwynedd ein hardal, ac i Arweinydd ac Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd:

-lunio diffiniadau o ormodedd ymhob categori o ddatblygiad twristaidd  
-sefydlu trefn fonitro ac adolygu datblygu twristaidd a fydd yn mesur effeithiau datblygiadau yn unigol ac yn gronol, gyda mesurydd priodol yn seiliedig ar feini prawf pendant ar gyfer adnabod gormodedd ym mhob category a chyd-destun - trefn glir, ddiamwys a chyson yng ngolwg datblygwyr, cynghorwyr a threthdalwyr;  
- gosod amodau cadarnach wrth ystyried ceisiadau cynllunio datblygiadau twristaidd er mwyn osgoi unrhyw niwed cymunedol

**Penderfyniad:** Cefnogi'r cynnig.

- i. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Gwynedd – Adroddiad Argymhellion Terfynol – Tachwedd 2018

Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi ysgrifennu i'r Comisiwn Ffiniau pan gafwyd cyfle i wneud sylwadau ar yr argymhellion yn yr adroddiad drafft, a oedd yn nodi bod

Comisiynydd y Gymraeg yn credu y dylid newid enw ward Criccieth i Gricieth. Cofnodwyd penderfyniad y Cyngor i wrthwynebu'r argymhelliad i newid enw'r ward. Roedd yr adroddiad terfynol a oedd wedi ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet yn argymhell cadw enw presennol y ward, sef Criccieth. Roedd yr enw wedi cael ei rhagnodi o fewn Gorchmynion.

**Penderfyniad:** derbyn y wybodaeth

- j. Cymorth Cynllunio Cymru – Sesiwn Hyfforddiant – Porthmadog 23 Ionawr 2019  
Nodwyd bod sesiwn hyfforddiant y cael ei gynnal.

**Penderfyniad:** Unrhyw aelod sydd am fynychu i roi gwybod i'r Clerc.

### **7-11/18: Ceisiadau Cynllunio**

- a. C18/0871/35/LL - Newid defnydd anecs i lety gwyliau - Eirianedd, Rhos Bach, Criccieth, LL52 OEP  
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad
- b. C18/0944/35/LL Addasiadau ag estyniadau i gefn eiddo preswyl – 3 Castle Terrace, Criccieth, LL52 ODY  
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad
- c. C18/0991/35/LL – Cais diwygiedig i gais blaenorol a wrthodwyd i godi estyniad cefn deulawr – Garreg Lwyd, Wellington Terrace, Criccieth, LL52 ODB  
**Penderfyniad:** Danfon sylwadau – doedd dim digon o wybodaeth am y cais i nodi beth oedd wedi newid o'r cais cyntaf. Mae'r Cyngor Tref wedi gofyn i'r Uned Gynllunio i ddarparu'r wybodaeth yma ar gyfer ceisiadau diwygiedig.
- d. C18/1007/35/TC – Cais am dystysgrif cyfreithloni ar gyfer defnyddio tir fel maes gwerysyla – Eisteddfa Caravan Park, Pentrefelin, Criccieth, LL52 OPT  
**Penderfyniad:** Dim sylwadau
- e. C18/0965/35/LL - Cais deiliad tŷ i ddymchwel porth presennol a chodi deulawr ochr newydd - 1 Antipodes Terrace, Criccieth, LL52 OBE.  
**Penderfyniad:** I wahodd sylwadau drwy e-bost gan nad oedd manylion y cais ar gael eto.

### **8-11/18 Archwiliad o Gyfrifon y Cyngor Tref 2017-18**

Nid oedd y broses allanol wedi ei gwblhau. Cafwyd adroddiad gan y Clerc yn nodi'r ymatebion i ymholiadau gan yr Archwilwyr Allanol. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

**Penderfyniad:** Derbyn y wybodaeth.

### **9-11/18 Apwyntio archwilwyr mewnol y Cyngor Tref**

Roedd Archwilwyr Cyngor Gwynedd wedi ei apwyntio blwyddyn yn ôl yn Archwilwyr Mewnol ar gyfer cyfrifon 2017/18

**Penderfyniad:** Apwyntio archwilwyr Cyngor Gwynedd am y 3 blynedd nesaf, sef ar gyfer cyfrifon 2018/19, 2019/20 a 2020/21.

### **10-11/18: Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth - diweddariad**

Daeth cannoedd o bobl o bell ac agos i ddigwyddiadau Wythnos y Cofio 4-11 Tachwedd- roedd llwyddiant ysgubol yr arddangosfa ( a agorwyd gan Liz Saville Roberts AS) , Noson Hedd Wyn a digwyddiadau Sul y Cofio gan gynnwys Gwasanaeth y Cofio, adloniant yn y prynhawn a the, a goleuo'r Ffagl Goleuni gyda'r hwyr. Roedd y prosiect - a ariannwyd gan Dreftadaeth y Loteri - yn bartneriaeth wych rhwng y Cyngor Tref, Ysgol Treferthyr, Coleg Meirion-Dwyfor, Pwyllgor y Neuadd Goffa a chymuned Criccieth. Cafwyd sylw teilwng gan y Wasg - gan gynnwys papurau newydd, rhaglen Heno S4C a rhaglen Radio Cymru, Post Cyntaf. Cudnabwyd gyda diolch gwaith gwych Ffion Gwyn, Rheolwr y Prosiect a ffrwyth ymchwil Cyng. Robert Cadwalader a chydabuwyd gwaith difflino'r Clerc i gydgorio'r digwyddiadau, y rhaglen, hysbysebu, gwahoddiadau, datganiadau i'r wasg a'r llyfryn. Roedd nifer fawr o ddiolchiadau eraill a oedd wedi nodi yn llyfryn 'Cofio Cyfraniad Criccieth gan gynnwys y delynores Emma Bucklye, Criccieth yn ei Blodau am y gwaith ardderchog ar gyfer gosodiad y Rhaeadr Heddwch ac i wirfoddolwyr Pwyllgor y Neuadd am rannu taflenni, helpu gosod yr arddangosfa, cadw drysau'r Neuadd ar agor i'r arddangosfa a digwyddiadau drwy gydol yr wythnos a chlirio fyny. Roedd Prif Weithredwr a Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol wedi bod yn bresennol yn agoriad yr arddangosfa ac wedi adrodd yn ôl ar lwyddiant y prosiect a'r arddangosfa i'r Prif Weinidog a Chadeirydd Cymru'n Cofio. Mynychwyd nifer o'r digwyddiadau gan Uchel Siryf Gwynedd a Chadeirydd Cyngor Gwynedd. Diolchwyd hefyd i'r Cyng. Phil Jones, Cyng. Wayne Roberts, Cyng. Dafydd Lloyd a'r Cyng. Robert Cadwalader am y gwaith o drefnu goleuo'r Ffagl ar y Prom ac i'r Cadeirydd Elizabeth George am arwain nifer o'r digwyddiadau. Roedd wedi bod yn Wythnos i'w chofio yng ngwir ystyr y gair ac wedi dangos bod rôl bwysig gan y Cyngor Tref i gydlynu prosiectau cymunedol. Roedd unigolyn wedi ei apwyntio i baratoi gwerthusiad o'r prosiect i'w gyflwyno i'r Loteri.

**Penderfyniad:** Derbyniwyd yr adroddiad gyda balchder a nodwyd y gwaith rhagorol gan Is-bwyllgor Cofio Cyfraniad Criccieth (Cadeirydd: y Cyng. Elizabeth George, Cyng. Robert Cadwalader, Mr Peter Harlech Jones- Neuadd Goffa, Ffion Gwyn, Rheolwr Prosiect a'r Clerc Catrin Jones) dros gyfnod o flwyddyn. Nodwyd rôl bwysig y Cyngor Tref i gydlynu prosiectau cymunedol.

### **11-11/18 Cynllun Cymunedol Criccieth - diweddariad**

Ystyriwyd termau Grŵp Llywio'r Cynllun Cymunedol Criccieth ac addaswyd:

- a. i gynnwys adran ychwanegol ar yr hawl i ffurfio gweithgorau i adrodd i'r Is-bwyllgor. Roedd y canlynol yn weithgar yn dilyn yr ymgynghoriad gyda'r gymuned sef:  
Yr amgylchedd  
Cyfleusterau dinesig a thwtrwydd  
Pobl ifanc  
Yr economi  
Diwylliant a chymdeithasu
- b. Newid geiriad "penderfyniadau" yn 3.2 a 6.4 i "argymhellion"
- c. Newid geiriad 7.2 i "Bydd hawl gan y Grŵp Llywio wario fyny at £500. Pan fydd wedi gwario swm o £500 bydd rhaid gofyn am hawl gan y Cyngor Tref am gyllid ychwanegol."

**Penderfyniad:**

Mabwysiadwyd termau diwygiedig y Grŵp Llywio ac etholwyd y Cyng Dr Ian Rees yn aelod o'r Is-bwyllgor a hefyd cadeiryddion y gweithgorau nodwyd yn a. uchod. Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod o'r Grŵp Llywio cyn gynted â phosib.

### **12-11/18 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell**

Nid oedd ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd er bod y swyddog wedi addo llythyr i'r Cyngor yn dilyn trafodaethau gyda'r Cyng Eirwyn Williams. Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y cyfreithiwr i ofyn am amcangyfrif cost bargyfreithiwr. Roedd y cyfreithiwr yn cynnig dilyn fyny'r ohebiaeth gan y Clerc a yrrwyd i Gyngor Gwynedd misoedd yn ôl gyda dehongliad y Cyngor Tref o'r sefyllfa, gan gynnwys y dystiolaeth ymchwil i'w gefnogi.

**Penderfyniad:** Y Clerc i ddanfôn copi o'r ohebiaeth i'r cyfreithiwr er mwyn iddo ysgrifennu at Gyngor Gwynedd. Cytunwyd hefyd i ysgrifennu at Bwyllgor y Neuadd i weld a fyddai modd iddynt dderbyn hysbysfwrdd hanesyddol y Cyngor Tref yn nodi enwau'r Cadeiryddion.

### **13-11/18 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol**

Cafwyd ystyriaeth o e-bost y Cyng Dr Tudor Jones yn tynnu sylw at sefyllfa'r drafnidiaeth sy'n dod i mewn i'r dref o gyfeiriad Pwllheli. Roedd wedi derbyn sawl cwyn ynglŷn â lled y palmant sydd yn eithriadol o gul ar yr ochr ogleddol o'r briffordd o flaen stad Gorseddfa. Ymddengys bod dau ddigwyddiad difrifol wedi digwydd yn y ddeufis olaf. Tarwyd ysgwydd un person gan "rear view mirror" lori enfawr ac ynteu'n cerdded ar y palmant cul. Digwyddiad arall erchyll oedd i berson anabl mewn cadair olwyn fethu tramwyo'r un palmant ac i'r gadair syrthio i'r ffordd - yn ffodus iawn nid oedd ceir o gwmpas ar y pryd.

Yn ystod y draffodaeth, mynegwyd pryder am gyflymder y traffic yn dod i mewn i Griccieth o gyfeiriad Pwllheli ac y dylid tynnu sylw Cyngor Gwynedd am yr angen i osod mesurau yn eu lle i leihau'r cyflymder.

**Penderfyniad :** I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt hwy i ledu'r palmant a hefyd am fesurau i leddfu cyflymder y traffig ar ochr Pwllheli o'r dref drwy osod arwyddion 40 cyn cyrraedd Gwesty Bron Eifion.

### **14-11/18 Torri gwair yn y dref**

Nodwyd bod consyrn am gyfrifoldeb torri gwair yn ardal Ty'n Rhos a bod angen eglurder am gyfrifoldebau.

**Penderfyniad:** Y dylai'r Cyng. Eirwyn Williams godi'r mater gyda Chyngor Gwynedd a hefyd perchennog Penbryn.

### **15-11/18 Parcio yng Nghriccieth**

Dim byd i'w adrodd

### **16-11/18 Torri coed yng Nghriccieth**

Dim byd i'w adrodd.

### **17-11/18 Meinciau Tref Criccieth**

Dim byd i'w adrodd.

### **18-11/18 Bocsiâu Blodau ger y Pines**

Nodi bod y gwaith o ail gyflunio a gosod 4 bocs newydd llai mewn pren accoya wedi'i gwblhau a bod Criccieth yn ei Blodau wrthi yn gwneud y plannu.

**Penderfyniad:** Diolch i Criccieth yn ei Blodau am ei gwaith.

### **19-11/18 Llwybrau Cyhoeddus**

Ar hyn o bryd roedd y Cyngor Tref yn trefnu toriadau ar gyfer llwybrau cyhoeddus – a Chyngor Gwynedd yn 2018/19 yn ad-dalu £325 o'r costau ar gyfer llwybrau Categori 1 a 2. Nid oedd gwybodaeth eto a fydd y cynllun ad-daliad yn dal i weithredu ar gyfer 2019/20. Roedd y Clerc wedi holi swyddog Cyngor Gwynedd am hyn. Roedd yn gyfrifoldeb statudol ar Gyngor Gwynedd i gynnal y llwybrau cyhoeddus – a doedd dim rhaid i'r Cyngor Tref barhau gyda'r bartneriaeth yma.

**Penderfyniad:** I drosglwyddo'r cyfrifoldeb am dorri'r llwybrau cyhoeddus yn ôl i Gyngor Gwynedd o 2019/20.

### **20-11/18 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref**

Roedd hysbysfwrdd y Cyngor Tref mewn cyflwr gwael ac angen un newydd.

**Penderfyniad:** I ystyried opsiynau yn y cyfarfod nesaf.

### **21-11/18 Derbyniadau**

Dim

### **22-11/18: Taliadau**

Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£72.90 (siec 101275)
• Cyflog y Clerc (Hydref)	£659.98 (siec 101276)
• Gwasg Cymru	£1,249.60 (siec 101277)
• Cymdeithion Sian Shakespear Associates	£953.00 (siec 101278)
• Atkin Groundworks	£517.99 (siec 101279)
• Cyngor Gwynedd –taliad archwiliwr mewnol	£180.00(siec 101280)
• Costau Clerc	£13.77 (siec 101281)
• The LittleTea Room Shop	£130.00(siec 1012782)
• Criccieth in Bloom	£73.78 (siec 1012783)*
• Ceri Cunningham	£15.30 (siec 1012784)*
• Llio Silyn	£108.00 (siec 1012785)*
• Gwasg Cymru	£40.80 (siec 1012786)*

**Penderfyniad:** Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau gan gynnwys y .4 bil ychwanegol\* a oedd wedi dod i law ers cyhoeddi'r agenda.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 11 Rhagfyr 2018**.

**\*\*Bydd y rhaglen yma yn cau 3 Rhagfyr 2018\*\***